



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant ac phobl ifanc: cerdyn gweithredu mesurau rhesymol posibl (coronafeirws)

Canllawiau i helpu darparwyr i ddiogelu plant ac phobl ifanc, staff ac ymwelwyr.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Medi 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-wedi-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Beth yw hwn?

Y Cyd-destun

Risgiau penodol yn y lleoliadau hyn

Pa gamau rhesymol y dylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws?

Cyfathrebu

Dolenni at ganllawiau allweddol

Beth yw hwn?

- Mae'r "Cerdyn Gweithredu" hwn yn rhoi cyngor ar fesurau sy'n debygol o fod yn rhesymol i'w cymryd i leihau'r risg o'r coronafeirws mewn lleoliadau Gofal Plant
- Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â **rheoliadau** cyfredol Llywodraeth Cymru a **chanllawiau eraill (mwy cyffredinol)**

Y Cyd-destun

- Mae'r Cerdyn Gweithredu hwn yn ymwneud â'r mesurau y mae rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am weithgareddau a drefnir ar gyfer plant eu rhoi ar waith, yn ôl y gyfraith, mewn ymateb i bandemig y coronafeirws
- Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a fynychir gan blant a phobl ifanc.
- Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys mynychu clybiau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddiu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

chwaraeon, dosbarthiadau drama, grwpiau rhieni a phlant bach, gwaith ieuenctid a grwpiau ieuenctid a grwpiau crefyddol

- Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn gymryd **mesurau rhesymol** i leihau'r risg y bydd pobl yn dod i gysylltiad â'r feirws a'i ledaenu
- Wrth wneud y penderfyniad ynghylch pa fesurau y dylid eu rhoi ar waith, rhaid iddynt hefyd gynnal **asesiad penodol o'r risg** y mae'r coronafeirws yn ei hachosi
- Mae'r Cerdyn Gweithredu yn amlygu risgiau sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â'r lleoliadau hyn, ac yn ystyried pa fesurau rhesymol y gellid eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hynny
- Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd yn briodol rhoi mesurau rhesymol eraill ar waith na chyfeirir atynt isod
- Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, gofynnwch am gyngor gan adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd. Dylech gofio a pharchu mai eu rôl yw sicrhau bod mesurau rhesymol priodol yn cael eu rhoi ar waith, fel y gall eich lleoliad weithredu mor ddiogel â phosibl. Fodd bynnag, nid eu rôl nhw yw cymeradwyo eich asesiad risg

Risgiau penodol yn y lleoliadau hyn

Fel gyda phob safle lle mae pobl o wahanol aelwydydd yn dod at ei gilydd, mae perygl o ledaenu'r coronafeirws yn gysylltiedig â lleoliadau gofal plant..

Er y bydd y risgiau ar gyfer lleoliadau yn dibynnu ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y safle a nifer y bobl sy'n bresennol, bydd y risgiau canlynol yn risgiau cyffredin:

- Rhyngweithio'n agos yn gorfforol, yn enwedig mewn perthynas â gofalu am blant iau neu giwio'n agos at eraill cyn mynd i mewn i'r lleoliad neu ynddo, er enghraifft yn y dderbynfa, mewn lifftiau, toiledau, ystafelloedd cotiau ac ati
- tebygolrwydd uwch o ryngweithio wyneb yn wyneb, yn enwedig lle mae rhieni'n aros ar y safle;
- codi lleisiau dros gerddoriaeth uchel yn cynyddu'r risg o drosglwyddo aerosol;
- posibilrwydd o awyru gwael, sy'n arbennig o broblemus pan fo pobl yn treulio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddiu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyfnodau hir gyda'i gilydd (dan do)•

Pa gamau rhesymol y dylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws?

Er ei bod yn annhebygol y bydd modd dileu'r risgiau'n gyfan gwbl mewn manau o'r fath, mae rhai mesurau'n rhesymol ac felly mae'n rhaid eu rhoi ar waith.

Dylech ystyried a fyddai'n rhesymol rhoi'r mesurau hyn ar waith. Dylai'r mesurau rydych yn eu rhoi ar waith gael eu llywio gan eich asesiad risg y bydd pobl sy'n defnyddio eich cerbydau neu eich safleoedd yn lledaenu'r coronafeirws, a dylent gael eu teilwra i'ch amgylchiadau penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **templed safonol** ar gyfer asesiadau risg coronafeirws, ac mae rhagor o **wybodaeth** ar gael i'ch helpu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Lleihau'r siawns y bydd y coronafeirws yn bresennol

- Annog staff i dderbyn y ddau ddos o frechlyn COVID-19
- Annog profion staff/gwirfoddolwyr rheolaidd (lle bo'n ymarferol). Os bydd aelod o staff, ymwelydd neu blentyn yn mynd yn sâl neu'n dangos symptomau pan fydd yn y lleoliad, dylai adael y safle ar unwaith a dilyn y cyngor ar wefan **Profi, Olrhain, Diogelu**, gan gynnwys hunanynsu a threfnu prawf
- Rhaid i staff, rhieni, ymwelwyr a phlant sy'n symptomatig neu sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 beidio â mynychu'r lleoliad a rhaid iddynt ddilyn y **canllawiau hunanynsu** yn gaeth. Nid oes rhaid i blant (o dan 18 oed) nac oedolion sydd wedi cael dos llawn o'r brechiad COVID-19 hunanynsu pan gânt wybod eu bod wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif. Bydd y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yn dal i gysylltu â nhw, gan gynnig cyngor ac arweiniad, a dylent fod yn ymwybodol o'r **canllawiau hunanynsu**. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y bydd plant neu oedolion sydd wedi'u heithrio yn cael cyngor i hunanynsu gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu. Bydd yr amgylchiadau hyn yn cael eu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddi-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

nodi gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu fesul achos.

Y ffordd orau o atal lledaeniad y coronafeirws mewn unrhyw safle yw lleihau'r risg y bydd y feirws ar y safle yn y lle cyntaf.

Atal gorlenwi

- Cyfyngu ar niferoedd neu reoli symudiadau pobl fel y gall plant, staff ac ymwelwyr gadw pellter oddi wrth eraill pan fo hynny'n bosibl. Er enghraifft, defnyddiwch systemau unffordd i'r safle neu i gerdded o'i amgylch os oes angen a rheoli symudiadau plant neu staff sy'n dod at ei gilydd mewn ardaloedd cyfyng fel toiledau
- Cadw pellter cymdeithasol rhwng staff a blant dros 11 yn ystod sesiynau a thu allan iddynt. Er y derbynnir yn gyffredinol nad yw plant ifanc iawn yn dda am gadw pellter ac na all y staff ddarparu gofal priodol os ydynt yn bell oddi wrth y plant, dylai'r staff barhau i geisio cadw pellter oddi wrth ei gilydd.
- Rheoli manau mynediad ac ymadael i atal pobl rhag dod at ei gilydd.

Cyfyngu ar niferoedd

- Lleihau niferoedd. Wrth benderfynu ar y nifer a all gymryd rhan mewn gweithgaredd, sef nifer y bobl a all fod yn bresennol ar unrhyw un adeg, cofiwch y bydd gostwng y niferoedd yn golygu llai o ryngweithio'n agos yn gorfforol, yn enwedig drwy leihau'r potensial o orlenwi.
- Gwasgaru pobl ar draws y lleoliad fel nad ydynt yn ymgynnull mewn niferoedd anghymesur mewn un ystafell neu mewn un man

Ystyried cyfyngiadau teithio

- Os yw lleoliad yn gwybod bod plant, teuluoedd neu staff yn torri'r **cyfyngiadau teithio** rhyngwladol, ni ddylent adael iddynt fynychu'r lleoliad

Gwella eich system awyru neu gynnal gweithgareddau yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-wediu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yr awyr agored

- Annog defnydd o fannau awyr agored pan fo hynny'n bosibl
- Gwella llif aer drwy agor ffenestri a drysau mewnol (ond nid drysau tân) pan fo hynny'n bosibl ac yn ddiogel. Gan y bydd plant yn bresennol yn y safleoedd hyn, mae'n bosibl mewn rhai achosion y gallai agor ffenestri neu ddrysau gynyddu'r risg y bydd plant yn cael eu hanafu neu'n gadael y safle heb oruchwyliaeth, felly dylai hyn fod yn rhan o unrhyw asesiad risg
- Os oes diffyg awyru naturiol, sicrhau bod 100% o'r aer y mae systemau awyru mecanyddol yn ei ddarparu yn awyr iach, yn hytrach nag ailgylchdroi aer o un lle i'r llall
- Sicrhau bod systemau awyru mecanyddol yn cael eu cynnal yn effeithiol a'u bod wedi'u trin
- Monitro lefelau CO2 i nodi mannau lle mae'r awyru yn wael

Cadw eich safle'n lân

- Glanhau'n drwyadl ac yn rheolaidd, gan ddefnyddio diheintydd mewn mannau prysur ac ar eitemau y cyffyrddir â nhw yn aml fel topiau cownter, byrddau a dolenni drysau
- Gosod hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad, yn enwedig mewn mannau mynediad ac mewn mannau cyswllt eraill, a darparu peiriannau sebon awtomataidd, dŵr a thywelion papur mewn ystafelloedd ymolchi
- Dylai plant a staff olchi eu dwylo yn rheolaidd
- Trefniadau glanhau rheolaidd ac effeithiol fel yr amlinellir yn y [Glanhau, hylendid a golchi dwylo i leihau trosglwyddo coronafeirws \(COVID-19\) \(hse.gov.uk\)](#) Peidio â rhannu bwyd, diod, teclynnau coginio na, pan fo modd, cyfarpar a theganau

Gostwng y sŵn

- Lleihau sain unrhyw gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae i leihau'r angen i bobl weiddi neu ddod â'u hwynebau'n agos at ei gilydd i siarad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddi-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gofalu am eich staff

- Gweithredu systemau i leihau'r cysylltiadau rhwng staff. Er enghraifft, amrywio amseroedd shifftiau staff, egwyliau a danfoniadau; nodi uchafswm a ganiateir mewn ceginau, ystafelloedd staff, ystafelloedd newid a manau fel ardaloedd ysmygu
- Darparu gorchuddion wyneb neu fath arall o gyfarpar diogelu personol i staff
- Cynorthwyo (ac nid atal) aelodau o staff sydd â symptomau, sydd wedi cael canlyniad positif neu sydd wedi cael gwybod gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu eu bod wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â'r coronafeirws (oni bai eu bod wedi'u hesemptio ar sail oedran neu statws brechu). Mae hunanyysu pan fydd person wedi cael canlyniad positif i brawf yn ofynnol yn ôl y gyfraith

Gorchuddion wyneb

- Helpu i sicrhau bod y bobl sy'n bresennol yn cydymffurfio â'u rhwymedigaeth gyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb
- Mae hi'n ofynnol o hyd i bobl dros 12 oed wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus dan do. Mae gofyniad i gynnal asesiad risg ac ystyried mesurau rhesymol mewn ymateb i'r asesiad hwnnw, a allai gynnwys gorchuddion wyneb. Fodd bynnag, os yw'r gweithgaredd yn digwydd mewn lleoliad nad yw'n agored i'r cyhoedd, nid oes gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb

Profi, Olrhain, Diogelu – cymorth

- Deall rôl system gwasanaeth **Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru** o ran monitro a rheoli'r feirws.
- **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr** i gefnogi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddiu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyfathrebu

Mae gennych rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth i'r bobl sy'n dod i'ch safle neu sy'n gweithio yno ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, rhoi gwybodaeth i bawb sy'n bresennol am y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a nodwyd yn yr asesiad risg, a'r mesurau sydd i'w rhoi ar waith i leihau'r risg.

Gallai hyn gynnwys cyhoeddiadau, arwyddion clir (gan gynnwys tâp llawr neu baent) yn nodi cyfyngiadau ar y nifer a ganiateir mewn ardal neu gerbyd penodol, systemau ciwio a systemau unffordd.

Dolenni at ganllawiau allweddol

[Canllawiau cyffredinol ar roi mesurau rhesymol ar waith i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws](#)

[Canllawiau hunanynysu](#)

[Glanhau, hylendid a golchi dwylo i leihau trosglwyddo coronafeirws \(COVID-19\) \(hse.gov.uk\)](#)

[Canllawiau COVID-19: Gofal Plant a Gwaith Chwarae](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddiu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant ac phobl ifanc: cerdyn gweithredu mesurau rhesymol posibl \(coronafeirws\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-wediu-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gweithgareddau-weddi-trefnu-ar-gyfer-plant-ac-phobl-ifanc-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).